Site Stakeholder Group

**Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol o Gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa ar 16 Hydref 2025**

1. Adroddodd y Cadeirydd ar y digwyddiadau y mae wedi bod ynddynt ers cyfarfod diwethaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ym mis Ebrill.

2. Cyflwynodd Stuart Law Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddatblygiadau ar y safle.

3. Adroddiad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) – Cyflwynodd Katie Chandler ei hadroddiad ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 30 Mehefin.

4. Cyflwynodd Iwan Williams adroddiad diweddaru ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd.

5. Ni chodwyd unrhyw gwestiynau yn ystod y Fforwm Holi ac Ateb.

Site Stakeholder Group

# Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa
## Dydd Mawrth 16 Hydref 2025, Swyddfa Hyb NRS Wylfa, Cemaes, Ynys Môn

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cyng Aled M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn, Ward Twrcelyn a Chadeirydd y Grŵp |
| D Stuart Law | Cyfarwyddwr y Safle, NRS |
| Y Cyng G O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng Derek Owen | Cyngor Sir Ynys Môn (Is-gadeirydd) |
| Y Cyng Gareth W Roberts | Cyngor Tref Amlwch |
| Y Cyng Ken Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng Gordon Warren | Cyngor Tref Amlwch |
| Llinos Medi | Aelod Seneddol Ynys Môn |
| Iwan Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| David Wilby | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| John Madden | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| Cath Pritchard | Ysgrifenyddiaeth SSG NRS |
| Elin P. Jones | Arweinydd Cyfathrebu a Materion Economaidd-gymdeithasol NRS |
| Mair Jones | Arweinydd Materion Economaidd-Gymdeithasol NRS |
| Katie Chandler | ONR |
| Virginia Crosbie | Partner yn Nuclear Capital LLP |
| David Carson | Cyfarwyddwr Datblygu NDA Solutions |
| Cllr Gary Pritchard | IOACC Elected Leader |

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Manon Cadwaladr | Cyfieithydd - Cymen |
| Sydna Roberts | Cofnodydd - Cymen |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Y Cyng Jackie Lewis | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng Liz Wood | Cyngor Tref Amlwch |
| Y Cyng Gwilym Morris | Cyngor Cymuned Rhosybol |
| Rhun ap Iorwerth | Aelod o'r Senedd |
| Bill Hamilton | Cyfarwyddwr Materion Allanol - NRS |
| Jonathon Jenkins | NDA |
| Steve Roberts | Rheolwr HSE NRS |
| Iwan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Jonathon Holland | Swyddog Cynllunio at Argyfwng |

### 1 Croeso a Derbyn Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

**2. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 08.04.25**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08.04.25, a rannwyd cyn y cyfarfod, fel cofnod cywir.

**3 Materion a Godwyd o'r Cofnodion Blaenorol**

Ni chodwyd unrhyw fater.

**4 Adroddiad Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad byr ar weithgarwch blaenorol, fel a ganlyn:

- Mynychwyd Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ar 2 Mai 2025 a 6 Mehefin 2025
- Mynychwyd cinio a chyfarfod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ym Manceinion ar 1 a 2 Gorffennaf gyda'r Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Swyddog Gweithredol y Grŵp
- Cyfarfod briffio ar-lein ar Strategaeth 5 Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) ar 11 Gorffennaf
- Gweminar Strategaeth 5 yr NDA ar 5 Medi

Digwyddiadau sydd ar y gweill:

- Cyfarfod Fforwm Cenedlaethol Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ar ddydd Gwener 24 Hydref
- Uwchgynhadledd Rhithiol Rhanddeiliaid yr NDA ar 3 Tachwedd 2025 - rhithiol

**5 Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa**

Cyflwynodd SL adroddiad cynhwysfawr a grynhoir fel a ganlyn: -

**Ystadegau Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch, ac Ansawdd**

Adroddodd SL ar yr ystadegau diogelwch fel a ganlyn:

- Cyfradd cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00
- Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR) 0.00
- Nifer y diwrnodau ers damwain colli amser: 2641 diwrnod (ar 02.10.25)

**Pobl**

Tîm Wylfa Un

Yn gweithio ar hyn o bryd ar y Cynllun Busnes ar gyfer y 4 blynedd nesaf y cytunir arno ym mis Tachwedd ar lefel Cwmni.

- 190 o staff safle NRS, yn cynnwys 5 o weithwyr a gyflenwyd gan staff asiantaeth
- 7 prentis – 4 wedi ymuno ym mis Awst
- 80 o staff NRS wedi'u lleoli yng Nghanolfan Wylfa – Swyddogaethau Cymorth Canolog

**Y Diweddaraf am y Safle:**

**System Droshaen Drydanol**

Mae'r prosiect System Droshaen Drydanol (EOS) wedi'i ddylunio i ailgyfeirio cyflenwad trydan y safle. Unwaith y bydd wedi'i gyflawni, bydd yn datgloi arbedion cost hirdymor ac yn galluogi prosiectau datgomisiynu yn y dyfodol.

Y cynnydd hyd yma:
• Mae'r gwaith galluogi wedi'i gwblhau'n llwyddiannus, gan wella diogelwch ac effeithlonrwydd gweithredol ar draws y safle.

- Mae holl geblau'r hen switsfyrddau wedi cael eu tynnu, eu datgymalu, a'u symud yn llwyr.
- Mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo ar hyd y ffordd ddynesu ar y cyd â Scottish Power.

Y cam nesaf:
Mae'r safle bellach wedi derbyn caniatâd i symud i gam cyflawni'r system drydanol newydd. Mae hyn yn nodi newid o gynllunio i weithredu — gyda gweithgareddau adeiladu, gosod, a chomisiynu ar fin dechrau.

**Prosiect Awyrellau Llestr - adweithyddion yn anadlu'n naturiol –**
Gan fod tanwydd wedi cael ei dynnu o'r adweithyddion yn Wylfa ers blynyddoedd lawer, nid oedd angen awyru'r adweithyddion drwy gyflenwad aer sych mwyach. Cytunwyd y gellid cau'r system awyru'n ddiogel. Nododd SL fod hwn yn ddarn da o waith sy'n cefnogi cynaliadwyedd ac yn cefnogi datgomisiynu pellach.

Y canlyniadau allweddol:

- Cael gwared ar systemau diangen, gan gefnogi'r prosiect EOS drwy ddileu'r angen am drydan i'w rhedeg.
- Arbed £130,000 o gostau blynyddol drwy ddefnyddio llai o drydan.
- O safbwynt cynaliadwyedd: Diffoddwyd yr oeryddion. Cafodd nwyon glycol a nwyon oeri — y ddau yn niweidiol i'r amgylchedd — eu tynnu'n llwyr o'r system.

Y camau nesaf:

- Cau'r systemau sy'n weddill yn derfynol. Gosod pibellau newydd.

Sefydlu pwynt samplu i gefnogi monitro a sicrwydd yn y dyfodol.

**Uwchraddio'r System Rheoli Diogelwch** – wedi cyrraedd carreg filltir bwysig o ran datblygu nodau strategol y safle ar gyfer 2025-2026. Bydd y cam nesaf yn cynnwys cyflwyno systemau wedi'u huwchraddio a datgomisiynu seilwaith sydd wedi darfod.

**Cyfleuster clirio gwastraff anweithredol** – nodwyd yr angen i greu cyfleuster newydd i gefnogi gweithrediadau parhaus ac anghenion y safle yn y dyfodol yn ogystal â galluogi trin gwastraff yn ddiogel ac yn effeithlon.

**Newid gwydr yn Neuadd y Tyrbin** – yn dilyn difrod stormydd diweddar, bydd newid y darnau gwydr mawr yn Neuadd y Tyrbin yn gwella cadernid ac iechyd a diogelwch.

**Uwchraddio'r system ddŵr ddomestig** – er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau posibl o glefyd y llengfilwyr.

**Cynaliadwyedd**
Mae Wylfa yn datblygu Cynllun Cynaliadwyedd Safle penodol gyda'r canlyniadau allweddol fel a ganlyn:

- Mae'n cyd-fynd ag ymrwymiad NRS i gael effaith gadarnhaol drwy ddatgomisiynu diogel, saff, a chynaliadwy.
- Mae'n darparu dull lleol o ymdrin â chynaliadwyedd, wedi'i deilwra i gyd-destun a chymuned unigryw Wylfa.
- Mae'n cefnogi cydweithio traws-swyddogaethol i sicrhau effaith ystyrlon ar draws conglfeini amgylcheddol, cymdeithasol, ac economaidd.

Nododd SL fod hyn yn gam pwysig i sicrhau bod cynaliadwyedd nid yn unig yn nod ond yn ffordd o weithio ar draws pob agwedd ar weithrediadau'r safle.

**Gwirfoddoli Cymunedol**
Mae'r Tîm Gwirfoddoli wedi gwneud trydydd ymweliad i gefnogi Tyddyn Môn, elusen ar Ynys Môn sy'n cefnogi oedolion ag anableddau dysgu, fel rhan o'r cynllun Cymdogol. Ymgymerwyd â nifer o dasgau fel peintio, tacluso, a garddio i wella'r hyn sydd o'u cwmpas.

**STEM**
Fe wnaeth 11 o fyfyrwyr Gogledd Cymru fynychu rhaglen profiad gwaith 4 diwrnod yn Wylfa, yn camu i fyd datgomisiynu. Mae gwaith wedi cael ei wneud gyda'r tîm Gyrfa Cynnar i arddangos Wylfa fel man lle mae cyfleoedd, arloesedd, a dysgu.

**Ymarfer Argyfwng Aml-asiantaeth** – wedi'i drefnu gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gyda chydweithrediad aml-asiantaeth ac yn cael ei gynnal ym maes parcio'r Ganolfan. Roedd y digwyddiad llwyddiannus yn cynnwys hyfforddiant realistig ar sail senarios mewn amgylchedd diwydiannol cymhleth. Cafodd y gymuned leol rybudd ymlaen llaw o'r digwyddiad er mwyn osgoi pryder diangen.

**Meysydd i'w gwella**
**Clefyd y Llengfilwyr Uchel** – mae trefn fflysio well ar waith ac yn cael ei hadolygu'n gyson. Dim problemau iechyd ar y safle ar hyn o bryd.
**Peiriannau'n diraddio a methiannau offer** – mae unrhyw fethiannau'n cael eu nodi, ac mae gwaith trwsio neu symud yn cael ei wneud yn ôl yr angen.

**Cynllun economaidd-gymdeithasol Gwasanaethau Adfer Niwclear (NRS) 2024-2025**
Disgrifiwyd buddsoddiadau o'r cynllun economaidd-gymdeithasol fel a ganlyn

- Rhoddwyd hwb i fuddsoddiad **Cyngor Cymuned Llanbadrig** gyda chyllid NRS o £10,000 tuag at brosiect gwerth £214,000 i wella caeau chwarae Cemaes yn ogystal â datblygu ardal chwarae gynaliadwy sydd wedi'i dylunio'n dda ac sy'n hygyrch i bawb. Bydd yr ardal hefyd yn fan i gynnal digwyddiadau cymunedol.
- Yn ddiweddar, mae **Cyngor Cymuned Llannerchymedd** wedi cael £6,000 ar gyfer menter newydd, Hwb LlanNi, sy'n caniatáu i'r Hwb osod lifft grisiau er mwyn i bawb

allu cael mynediad at y llawr cyntaf ar gyfer dosbarthiadau, cyfarfodydd, a gweithdai. Mae Coleg Menai eisoes wedi dechrau cynnal cyrsiau TG i breswylwyr.

Roedd y gwobrau ar gyfer **prosiectau Cymydog Da** yn cynnwys y canlynol:

- Fe wnaeth **Cyngor Cymuned Rhosybol** dderbyn £1,100 i gefnogi'r digwyddiad cofio a gynhaliwyd ar Fynydd Parys i ddathlu Diwrnod VJ yn 80 oed.
- Yn ddiweddar, fe wnaeth **Clwb Pêl-droed Bodedern** dan 10 oed dderbyn £900 i gael offer hyfforddi ar gyfer y tymor newydd.
- Derbyniodd **Cymdeithas Gymunedol Mechell** £1,000 tuag at waith cloddio archaeolegol dros 10 diwrnod yng Nghae Rheithordy Llanfechell. Mae'n adeiladu ar lwyddiant gwaith cloddio blaenorol a gafodd ei ariannu'n rhannol gan NRS yn 2023. Bydd dros 50 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan ynghyd â phlant ysgol o'r ysgol gynradd leol.

- Derbyniodd **Hyfforddiant Parys** £1,000 ar gyfer gwelliannau i'r Deyrnas Gopr ym Mhorth Amlwch er mwyn ei drawsnewid i fod yn le ar gyfer unedau i gychwyn busnesau bach.

Atgoffwyd yr aelodau i gysylltu â Mair Jones neu Elin Parry Jones (lefel cymydog da) ynghylch ceisiadau, manylion yn www.gov.uk/government/collections/nrs-working-with-our-communities.

Diolchodd y Cadeirydd i SL am ei adroddiad cynhwysfawr a'i longyfarch ar lwyddiant y prentisiaethau a safonau diogelwch y Safle.

**Sesiwn Holi ac Ateb**

Holodd y Cyng Gary Pritchard a oedd y prentisiaethau'n lleol i'r ardal, ac a fydd y Cynllun Busnes arfaethedig yn cynnwys cynnydd yn y nifer a gynigir.
Cadarnhaodd SL fod yr holl brentisiaid presennol yn lleol ac mai'r bwriad yw parhau i gefnogi prentisiaid yn dibynnu ar gyllid yn y dyfodol.

Holodd Virginia Crosbie a oedd cyfyngiad ar nifer y prentisiaethau a fyddai'n cael eu derbyn. Cadarnhaodd SL nad oes grŵp hyfforddi penodol ar y safle a bod terfyn ymarferol ar nifer y prentisiaid y gellir eu cefnogi yn y timau Cynnal a Chadw cymharol fach.

Holodd y Cyng Gareth Winstone Roberts pa sgiliau a gynigiwyd i'r prentisiaethau. Cadarnhaodd SL fod y meysydd yn rhai trydanol, mecanyddol, peirianneg ddiwydiannol, a diogelwch. Y nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng llwybrau graddedigion a phrentisiaethau.
O ran canlyniadau, mae prentisiaid yn cael hyfforddiant a chymorth gyda'r technolegau diweddaraf.

Holodd y Cyng Derek Owen beth yw'r cynlluniau i leihau niferoedd staff. Dywedodd SL fod staff, ar hyn o bryd, yn cael cynnig cynlluniau ar sail wirfoddol mewn meysydd a all gefnogi'r dull hwn. Fodd bynnag, ailadroddodd fod cyflawni'r genhadaeth yn hollbwysig ac y bydd staff yn cael eu cadw i wneud hynny.

Cyfeiriodd Llinos Medi AS at y synergedd rhwng datgomisiynu a'r gweithlu niwclear newydd. Cytunodd Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle i drafod ymhellach â LIM y tu allan i'r cyfarfod

**6. Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jonathon Jenkins NDA. Fodd bynnag, nodwyd cynnwys ei adroddiad a ddosbarthwyd ym mhecyn papurau'r cyfarfod.

**7 Diweddariad gan Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)**

Cyflwynodd Katie Chandler ei hadroddiad ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2025 a 30 Mehefin 2025, a oedd wedi'i ddosbarthu yn flaenorol gyda phapurau'r cyfarfod. Aeth arolygwyr safle ONR i Wylfa ar y dyddiadau canlynol:-

11 Chwefror
27 Mawrth
8 Ebrill

Nid oedd unrhyw faterion na digwyddiadau pwysig i adrodd arnynt yn ystod y cyfnod.

**Sesiwn Holi ac Ateb** – dim wedi'u derbyn

Diolchodd y Cadeirydd i KC am ei ddiweddariad.

**8 Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd**

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd gan Iwan Williams, Rheolwr Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer safleoedd Wylfa a Thrawsfynydd, ac roedd yn rhoi sylw i'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2025, ac ni nodwyd unrhyw faterion penodol ar gyfer Wylfa. Fe wnaeth hefyd gyflwyno John Madden, Asiantaeth yr Amgylchedd, i aelodau Grŵp Rhanddeiliaid y Safle.
Diolchodd y Cadeirydd i IW am ei adroddiad, a dymunodd yn dda i John Madden yn ei swydd newydd.

**Sesiwn Holi ac Ateb**

Cyfeiriodd y Cyng G O Jones at wybodaeth ddiweddar yn y cyfryngau ynghylch gostyngiad y tyrau yn Nhrawsfynydd. Cadarnhaodd IW nad oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw bryderon ynghylch ymbelydredd ac y bydd y gwaith yn dechrau ym mis Mai 2026.
Sicrhaodd KC yr aelodau hefyd fod yr holl asiantaethau perthnasol mewn cysylltiad rheolaidd â safle Trawsfynydd a'r contractwyr penodedig, Costain.

**9 Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored –** ni chodwyd unrhyw gwestiynau pellach.

**10. Unrhyw Fater Arall**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 02:50

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Ebrill 2026, dyddiad i'w gadarnhau.**

Llofnod…………………………………………..
Y Cyng Aled M Jones, Cadeirydd

Site Stakeholder Group

**Summary of Key points from the Wylfa SSG Meeting 16.10.25**

1. The Chair reported on the events he has attended since the last SSG meeting in April.

2. Stuart Law presented the Site Director's Report updating members on site developments

3. ONR report – Katie Chandler presented her report for the period 1 January – 30 June

4. Iwan Williams presented a joint NRW/EA update report.

5. No questions were raised during the Question-and-Answer Forum

Site Stakeholder Group

# Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group
## Tuesday 16 October 2025, NRS Wylfa Hub Office Cemaes Anglesey

**Present:**

| | |
|---|---|
| Cllr Aled M Jones | IOACC Twrcelyn Ward and SSG Chair |
| D Stuart Law | Site Director, NRS |
| Cllr G O Jones | Councillor IoACC |
| Cllr Derek Owen | Councillor IoACC (Vice Chair) |
| Cllr Gareth W Roberts | Amlwch Town Council |
| Cllr Ken Hughes | Councillor IoACC |
| Cllr Gordon Warren | Amlwch Town Council |
| Llinos Medi | MP Ynys Môn |
| Iwan Williams | NRW |
| David Wilby | Environmental Agency |
| John Madden | Environmental Agency |
| Cath Pritchard | SSG Secretariate NRS |
| Elin P. Jones | Comms and Socio Economics Lead NRS |
| Mair Jones | Socio-Economics Lead NRS |
| Katie Chandler | ONR |
| Virginia Crosbie | Partner at Nuclear Capital LLP |
| David Carson | Development Director NDA Solutions |
| Cllr Gary Pritchard | IOACC Elected Leader |

**In attendance:**

| | |
|---|---|
| Manon Cadwaladr | Translator - Cymen |
| Sydna Roberts | Minute taker – Cymen |

**Apologies:**

| | |
|---|---|
| Cllr. Jackie Lewis | Councillor IoACC |
| Cllr Liz Wood | Amlwch Town Council |
| Cllr. Gwilym Morris | Rhosybol Community Council |
| Rhun ap Iorwerth | SM |
| Bill Hamilton | Director of External Affairs – NRS |
| Jonathon Jenkins | NDA |
| Steve Roberts | HSE Manager NRS |
| Iwan Jones | Isle of Anglesey County Council |
| Jonathon Holland | Emergency Planning officer |

### 1 Welcome and Receive Apologies for Absence

The Chair welcomed all to the meeting and noted the absences as recorded above.

**2. Approval of Minutes of the Meeting held 08.04.25**

The minutes of the meeting held 08.04.25, circulated prior to the meeting, were received, and accepted as a true record.

**3 Matters Arising from the Previous Minutes**

None raised.

**4 SSG Chairman's Report**

The Chair gave a brief update on past activity as follows:

- Attended SSG Chairs and Vice Chairs Forum 2 May 2025 and 6 June 2025
- SSG Chairs and Vice Chairs Dinner and meeting in Manchester 1 & 2 July with the CEO and Group CEO's
- Virtual briefing on NDA Strategy 5 on 11 July
- NDA's Strategy 5 webinar – 5 September

Upcoming events –

- National SSG Forum Meeting Friday 24 October
- NDA's Virtual Stakeholder Summit on 3 November 2025 - virtual

**5 Wylfa Site Director's Report**

SL presented the Site update report summarised as follows: -

**EHSS&Q statistics**

SL reported on the safety statistics as follows:-

- Total recorded incident rate (TRIR): 0.00
- Days away case rate (DACR) 0.00
- Number of days since a lost time accident: 2641 days (as at 02.10.25)

**People**

Wylfa One Team

Currently working the Business Plan for the next 4 years which will be agreed on a Company level in November.

- 190 NRS site staff Includes 5 agency staff Supplied Workers
- 7 apprentices – 4 recently joined in August
- 80 NRS staff based at the Wylfa Hub – Central Support Functions

**Site update:**

**Electrical overlay system**

The Electrical Overlay System (EOS) project is designed to re-route the site's electrical supply. Once delivered, it will unlock long term cost savings and enable future decommissioning projects.

Progress to date:

• Enabling works successfully completed, enhancing both safety and operational efficiency across the site.

- Legacy switchboards have been decabled, dismantled, and fully removed.
- Ongoing works continue along the approach road in collaboration with Scottish Power.

Next phase:
The site has now received authorisation to move into the delivery phase of the new electrical system. This marks a transition from planning to action — with construction, installation, and commissioning activities set to begin.

**Vessel Vent Project natural breathing reactors –**
The reactors at Wylfa, having been defueled for many years, no longer required ventilation via a dry air supply. It was agreed that the ventilation system could be safely shut down. SL noted that this was a good piece of work supporting sustainability and supporting further decommissioning

Key outcomes:
- Redundant systems removed, supporting the EOS project by eliminating the need for electricity to run them.
- £130,000 annual cost saving achieved through reduced electricity usage.
- From a sustainability perspective: Chillers were switched off. Glycol and refrigerant gases — both harmful to the environment — were fully removed from the system.

Next Phase:
- Final closure of remaining systems. Installation of new pipework.

Establishment of a sampling point to support future monitoring and assurance.

**Security Management System upgrade** – major milestone has been reached in advancing the site's strategic aims for 2025-6. The next phase will include a rollout of upgraded systems and the decommissioning of obsolete infrastructure.

**Non active waste clearance facility** – the need to create a new facility was identified to support ongoing operations and future site needs as well as enabling safe and efficient waste handling.

**Turbine Hall glazing replacement –** following recent storm damage replacement of large, glazed sections within the Turbine Hall will improve resilience and health and safety.

**Domestic water system upgrade –** undertaken to address any possible legionella risks.

**Sustainability**
Wylfa is developing a dedicated Site Sustainability Plan with the key outcomes as follows:
- Aligns with NRS's commitment to leave a positive legacy through safe, secure, and sustainable decommissioning.
- Provides a localised approach to sustainability, tailored to Wylfa's unique context and community.

- Supports cross-functional collaboration to deliver meaningful impact across environmental, social, and economic pillars.

SL noted that this marks an important step in ensuring sustainability is not just a goal but a way of working across all aspects of site operations.

**Community Volunteering**
The Volunteering Team has made a third visit to support Tyddyn Môn, a charity on Anglesey that supports adults with learning disabilities, as part of the Neighbourly scheme.  Several tasks such as painting, tiding and gardening were undertaken to enhance their surroundings.

**STEM**
11 students across North Wales attended a 4-day work experience programme at Wylfa stepping into the world of decommissioning.  Work has been undertaken with the Early Career team to showcase Wylfa as a place of opportunity, innovation and learning.

**Multi Agency Emergency Exercise –** arranged by NW Fire & Rescue Service with multi agency collaboration and held on the car park of the Hub.  The successful event involved realistic scenario-based training in a complex industrial environment. The local community was forewarned of the event in order to avoid unnecessary concern.

**Areas for improvement**
**High Legionella** – enhanced flushing regime in place and being constantly reviewed.  No immediate health issues on site.
**Plant degradation and equipment failures** – any failures are noted, and repair or removal is undertaken as required.

**Nuclear Restoration Services (NRS) socio-economic scheme 2024-25**
Investments from the socio-economic scheme were described as follows

- **Llanbadrig Community Council's** investment was boosted with £10,000 NRS funding towards a £214,000 project to improve the Cemaes playing fields as well as develop a well-designed sustainable play area that's accessible to all. The area will also serve as a space to host community events.
- **Llannerchymedd Community Council** have recently received £6,000 for a new venture, Hwb LlanNi allowing the Hwb to install a stair lift to enable access for all to the first floor for classes, meetings and workshops. Coleg Menai have already begun holding IT courses for residents.

**Good Neighbour projects** awards included

- **Rhosybol Community Council** received £1,100 to support the remembrance event held on Parys Mountain regarding the 80th VJ Day anniversary.
- **CPD Bodedern** under 10's Football Club recently received £900 for training equipment for the new season.
- **Cymdeithas Cymunedol Mechell** £1,000 towards a 10 day archaeology dig in Llanfechell Rectory Field. It builds on a successful previous dig which was part funded by NRS in 2023. Over 50 volunteers will participate along with school children from the local primary school.

- **Parys Training** £1,000 for improvements to the Copper Bins in Amlwch Port to support the transformation into a space for small business start-up units.

Members were reminded to contact Mair Jones or Elin Parry Jones (good neighbour level) regarding applications, details at [www.gov.uk/government/collections/nrs-working-with-our-communities](www.gov.uk/government/collections/nrs-working-with-our-communities).

The Chair thanked SL for his comprehensive report and congratulated him on the Site's safety standards and the apprenticeships success.

**Question and Answer Session**
Cllr Gary Pritchard – enquired if the apprenticeships were local to the area, and whether the proposed Business Plan will include an increase in number offered.
SL confirmed that all current apprentices were local and that the intention is to continue to support apprentices dependent on future funding.

Virginia Crosbie – enquired if there was a limit to apprenticeship intake. SL confirmed that there is no dedicated training group on site and that there was a practicable limit on the number of apprentices that can be supported in the relatively small Maintenance teams.

Cllr Gareth Winstone Roberts enquired as to the skill sets offered to the apprenticeships. SL confirmed the areas as electrical, mechanical, industrial engineering and safety. The aim is to ensure a balance between the graduate and apprenticeship routes.
As regards outcomes, apprentices are provided with training and support in the latest technologies.

Cllr Derek Owen – enquired as to the staff reduction plans. SL stated that, currently, staff are offered schemes on a voluntary basis in areas that can support this approach. He reiterated, however, that delivering the mission is paramount and that staff will be retained to do so.

Llinos Medi MP referred to the synergy between decommissioning and new nuclear workforce. The SSG Chair agreed to discuss further with LIM outside the meeting

**6. Nuclear Decommissioning Authority**
Apologies received from Jonathon Jenkins NDA, however, the content of his report, circulated within the meeting papers pack, was noted.

**7 Office for Nuclear Regulation Update**
Katie Chandler presented her report for the period 1 January 2025 – 30 June 2025 previously circulated with the meeting papers. ONR site inspectors attended Wylfa on the following dates:-

11 February
27 March
8 April

There were no matters or events of significance to report during the period.

**Question and Answer session.** – none received

The Chair thanked KC for her update.

**8 Natural Resources Wales / Environmental Agency Update**

A joint NRW/EA report was presented by Iwan Williams NRW Manager for both Wylfa and Trawsfynydd sites and covered the period from April to September 2025 and no specific issues were identified for Wylfa. He also introduced John Madden Environment Agency to SSG members.
The Chair thanked IW for his report and wished John Madden well in his new post.

**Question and Answer session**

Cllr G O Jones referred to recent information in the media regarding the tower reduction in Trawsfynydd. IW confirmed that NRW has no concerns regarding radiation and that the reduction work will commence in May 2026.
KC also assured members that all relevant agencies are in regular contact with the Trawsfynydd site and the appointed contractors, Costain.

**9 Open Forum Question and Answer Session –** no further questions were raised.

**10. Any Other Business**

The Chair thanked all for their attendance and closed the meeting at 2:50

**Dates Next Meeting – April 2026 date to be confirmed.**

Signed ……………………
Cllr Aled M Jones, Chair

Site Stakeholder Group

**Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa**

**Cynhelir cyfarfod nesaf Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa:**
**Thursday, 26 March 2026**
**14:00 hrs**
**Via Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Croeso **(5 munud)** | Aled M Jones |
| 2. | Ymddiheuriadau am absenoldeb a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2025 **(5 munud** | All |
| 3. | Materion a godwyd o'r Cofnodion blaenorol **(5 munud)** | All |
| 4. | Adroddiad Cadeirydd yr SSG ar Lafar **(10 munud)** | Aled M Jones |
| 5. | Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa ar Lafar **(30 munud)** | Stuart Law |
| 6. | Diweddariad Corfforaethol NRS ar Lafar **(10 munud)** | Bill Hamilton **(TBC)** |
| 6. | Diweddariad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ar Lafar **(10 munud)** | Peter Hughes |
| 7. | Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd ar Lafar **(10 munud)** | Dave Wilby / John Madden |
| 8. | Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored | All |
| 9. | Unrhyw Fater Arall | All |

**Cyfarfod Nesaf – 15 Hydref**

Site Stakeholder Group

**Wylfa Site Stakeholder Group**

**The next meeting of the Wylfa Site Stakeholder Group will be held:**
**Thursday, 26 March 2026**
